# YMWELIAD SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Neville Evans (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Jeff Evans, Trefor Lloyd Hughes, MBE, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Ken Taylor. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Rheoli Datblygu (RLlJ)<br>Swyddog Cynllunio (HR) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Geraint Bebb, Glyn Haynes, Dafydd Roberts, Robin Williams, Liz Wood |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Cynghorydd Alun Roberts |

---

**1 HHP/2022/46 - CAIS LLAWN AR GYFER DYMCHWEL, ADDASU AC EHANGU YN TAN YR ALLT BACH, LLANDDONA**

Mynychodd Aelodau'r Pwyllgor yr ymweliad safle ar draeth Llanddona er mwyn gallu gweld y cais o gyfeiriad y traeth. Cafodd safle'r cais ei archwilio a dangoswyd y cynlluniau safle arfaethedig i'r Aelodau a chawsant weld yr annedd presennol. Mynegwyd pryderon am y strwythur gwydr cysylltiol rhwng yr annedd presennol ac estyniad newydd arfaethedig i'r ochr a'r potensial ar gyfer creu dau annedd preswyl. Eglurodd y Swyddogion y cais ac fe gadarnhawyd nad yw'r estyniad i'r ochr o'r eiddo presennol yn cynnwys unrhyw ystafelloedd gwely. Cadarnhawyd hefyd y byddai'r cynnig yn golygu newid yr annedd presennol o dŷ 3 ystafell wely i dŷ 5 ystafell wely.

**Cynghorydd Neville Evans**
**Cadeirydd**